COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MAWRTH, 12 GORFFENNAF 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd R Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | H Griffiths | RM James | P W Jenkins |
| R J Smith | I Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

2. CYMERADWYO COFNODION

Bod cofnodion y Cyfarfodydd Is-Bwyllgor Trwyddedu B yr 26/04/2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

3. MATERION BRYS

Dim.

4. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982, CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW, THE PRIVATE SIOP, 72 FFORDD PEN-Y-BONT AR OGWR, ABERCYNFFIG

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad a oedd yn ymwneud â chais a dderbyniwyd gan Darker Enterprises Cyf i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw ar gyfer y safle uchod, cyflwynwyd yr adroddiad gerbron yr Is-bwyllgor i'w ystyried gan nad yw pwerau wedi'u dirprwyo o dan y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.

Dywedodd fod y drwydded bresennol yn ddarostyngedig i amodau safonol y Cyngor yn ogystal â'r amodau arbennig sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae'r oriau masnachu rhwng 0930 a 2000 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 1000 a 1600 o'r gloch ar y Sul. Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu na chafwyd unrhyw argymhellion gan yr ymgyngoreion statudol i amrywio'r amodau sydd ynghlwm yn atodiad A, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau a oedd yn ymwneud â'r cais.

Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu fod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol i hysbysebu'r cais, a dangoswyd manylion y rhain yn yr adroddiad ynghyd â gofynion a chanllawiau cysylltiedig eraill. Ychwanegodd bod swyddog gorfodi wedi cynnal archwiliad o'r safle ac nad oedd wedi canfod unrhyw achosion o dorri'r drwydded bresennol nac unrhyw achosion eraill a oedd yn peri pryder.

Cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r cais, a chafwyd;

PENDERFYNIAD: Bod yr Is-bwyllgor wedi cytuno'n unfrydol dros adnewyddu'r Drwydded uchod, yn amodol ar y telerau ac amodau presennol.

5. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Ar ôl cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd rhoi ystyriaeth breifat i'r eitem ganlynol, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, oherwydd yn yr holl amgylchiadau a oedd yn gysylltiedig â'r eitem, ystyriwyd bod budd y cyhoedd o gynnal yr esemptiad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

6. CYMERADWYO COFNODION WEDI'U EITHRIO

7. RHOI TRWYDDEDAU - CERBYD HACNI A GYRRWR CERBYD LLOGI PREIFAT

Daeth y cyfarfod i ben am 10:28